



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2002 Rhif 1506 (Cy.151)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd
Gwladol (Ffioedd a Thaliadau
Optegol) (Diwygio) (Rhif 2)
(Cymru) 2002

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997 ("y prif Reoliadau"), sy'n darparu cynllun ar gyfer taliadau i'w gwneud gan Awdurdodau Iechyd ac Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol, drwy system dalebau, tuag at y costau a dynnwyd gan gategorïau penodol o berson mewn cysylltiad â phrofion golwg a chyflenwi, amnewid a thrwsio teclynnau optegol.

Mae Rheoliad 2 yn diwygio'r diffiniad o "NHS sight test fee" yn rheoliad 1(2) o'r prif Reoliadau i adlewyrchu gwerthoedd y ddwy lefel o ffioedd am brofion golwg y Gwasanaeth Iechyd Gwladol sy'n daladwy i ymarferwyr meddygol offthalmig ac optegwyr pan ddaw'r rheoliadau hyn i rym. Mae'r symiau hyn yn berthnasol wrth benderfynu pwy sy'n gymwys i gael taleb at dalu costau prawf golwg, a phenderfynu ei gwerth adbrynu.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2002 No. 1506 (W.151)

NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

The National Health Service
(Optical Charges and Payments)
(Amendment) (No.2) (Wales)
Regulations 2002

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations further amend the National Health Service (Optical Charges and Payments) Regulations 1997 ("the principal Regulations"), which provide for a scheme of payments to be made by Health Authorities and National Health Service Trusts, by means of a voucher system, towards the costs incurred by certain categories of person in connection with sight tests and the supply, replacement and repair of optical appliances.

Regulation 2 amends the definition of "NHS sight test fee" in regulation 1(2) of the principal Regulations to reflect the values of the two levels of fee for National Health Service sight tests payable to ophthalmic medical practitioners and opticians at the time these regulations come into force. These amounts are relevant to determination of eligibility for, and the redemption value of, a voucher towards the cost of a sight test.

2002 Rhif 1506 (Cy.151)**Y GWASANAETH IECHYD
GWLADOL, CYMRU**

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd
Gwladol (Ffioedd a Thaliadau
Optegol) (Diwygio) (Rhif 2)
(Cymru) 2002

Wedi'u gwneud

10 Mehefin 2002

Yn dod i rym

11 Mehefin 2002

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(a) a pharagraff 2A o Atodlen 12 iddi, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn dehongli a chymhwysyo

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2002 a deuant i rym ar 11 Mehefin 2002.

(2) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "y prif Reoliadau" ("the principal Regulations") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997(b).

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

(a) 1977 p.49 ("Deddf 1977"); *gweler* adran 128(1), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 (p.19) ("Deddf 1990"), adran 26(2)(g) ac (i) ar gyfer y diffiniad o "prescribed" a "regulations".

Diwygiwyd adran 126(4) gan Ddeddf 1990, adran 65(2) a chan Ddeddf Iechyd 1999 (p.8) ("Deddf 1999"), Atodlen 4, paragraff 37(5). Mewnosodwyd paragraff 2A o Atodlen 4 gan Ddeddf Iechyd a Nawdd Cymdeithasol 1984 (p.48), Atodlen 1, paragraff 3 a'i diwygio gan adran 13(2) a (3) o Ddeddf Iechyd a Meddyginaethau 1988 (p.48).

Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 126(4) o Ddeddf 1977 a pharagraff 2A o Atodlen 12 iddi, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S. 1999/672, erthyl 2 ac Atodlen 1, fel y'u diwygiwyd gan adran 66(5) o Ddeddf 1999.

(b) O.S. 1997/818, yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1997/2488, 1998/499, 1999/609, 2000/978(Cy.48), 2000/3119 (Cy.198), 2001/1423 a 2002/186(Cy.25).

2002 No. 1506 (W.151)**NATIONAL HEALTH
SERVICE, WALES**

The National Health Service
(Optical Charges and Payments)
(Amendment) (No.2) (Wales)
Regulations 2002

Made

10th June 2002

Coming into force

11th June 2002

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred upon it by section 126(4) of, and paragraph 2A of Schedule 12 to, the National Health Service Act 1977(a) hereby makes the following Regulations:

Citation, commencement, interpretation and application

1.-(1) These Regulations may be cited as the National Health Service (Optical Charges and Payments) (Amendment) (No.2) (Wales) Regulations 2002 and shall come into force on 11th June 2002.

(2) In these Regulations "the principal Regulations" ("prif Rheoliadau") means the National Health Service (Optical Charges and Payments) Regulations 1997(b).

(3) These regulations shall apply to Wales only.

(a) 1977 c.49 ("the 1977 Act"); *see* section 128(1), as amended by the National Health Service and Community Care Act 1990 (c.19) ("the 1990 Act"), section 26(2)(g) and (i) for the definitions of "prescribed" and "regulations".

Section 126(4) was amended by the 1990 Act, section 65(2) and by the Heath Act 1999 (c.8) ("the 1999 Act"), Schedule 4, paragraph 37(5). Paragraph 2A of Schedule 4 was inserted by the Health and Social Security Act 1984 (c.48), Schedule 1, paragraph 3 and amended by section 13(2) and (3) of the Health and Medicines Act 1988 (c.48).

The functions of the Secretary of State under sections 126(4) of, and paragraph 2A of Schedule 12 to, the 1977 Act were transferred to the National Assembly for Wales by The National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999, S.I.1999/672, article 2 and Schedule 1, as amended by section 66(5) of the 1999 Act.

(b) S.I. 1997/818, the relevant amending instruments are S.I.1997/2488, 1998/499, 1999/609, 2000/978(W.48), 2000/3119(W.198), 2001/1423 (W.98) and 2002/186(W.25).

Diwygio rheoliad 1 o'r prif Reoliadau

2. Ym mharagraff (2) o Reoliad 1 o'r prif Reoliadau (dehongli), yn y diffiniad o "NHS sight test fee", yn lle'r swm "£44.39" rhowch "£46.16" ac yn lle'r swm "£16.08" rhowch "£16.72".

Amendment of regulation 1 of the principal Regulations

2. In paragraph (2) of Regulation 1 of the principal Regulations (interpretation), in the definition of "NHS sight test fee", for the amount "£44.39" substitute "£46.16" and for the amount "£16.08" substitute "£16.72".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adrann 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(a)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(a)

10 Mehefin 2002

10th June 2002

Rhodri Morgan

Prif Weinidog Cynulliad Cenedlaethol Cymru

First Minister, National Assembly for Wales

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

2002 Rhif 1506 (Cy.151)

**Y GWASANAETH IECHYD
GWLADOL, CYMRU**

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd
Gwladol (Ffioedd a Thaliadau
Optegol) (Diwygio) (Rhif 2)
(Cymru) 2002

STATUTORY INSTRUMENTS

2002 No. 1506 (W.151)

**NATIONAL HEALTH
SERVICE, WALES**

The National Health Service
(Optical Charges and Payments)
(Amendment) (No.2) (Wales)
Regulations 2002

© Hawlfraint y Goron 2002

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2002

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090518-0



9 780110 905181

£1.75

W/111/07/02

ON